**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC 03-01(p2)**

**Dyddiad: 14 Chwefror 2001**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Adroddiad Terfynol Drafft ar yr Adolygiad Pob Pum Mlynedd o Awdurdod Datblygu Cymru**

## Diben

1. Ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch yr Adroddiad Terfynol drafft ar yr Adolygiad Pob Pum Mlynedd o Awdurdod Datblygu Cymru. Mae'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 9.7 fod y pwyllgorau pwnc yn cadw llygad ar y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn eu meysydd perthnasol. Ar ôl derbyn yr Adroddiad Terfynol a safbwyntiau'r Pwyllgor, bydd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynghori'r Cabinet ar gasgliadau'r Adroddiad ac yna'n cyhoeddi ymateb y Llywodraeth. Y bwriad yw y ceir cyfle i drafod yn y Cyfarfod Llawn cyn cwblhau'r adroddiad.

## Argymhellion

2. Bod y Pwyllgor yn cyflwyno sylwadau ar gasgliadau'r Adroddiad Terfynol drafft yn Atodiad A. Mae'r cylch gwaith wedi'i nodi yn Atodiad 2 yr Adroddiad.

## Cefndir

3. Comisiynwyd yr Adolygiad Pob Pum Mlynedd o Awdurdod Datblygu Cymru yn ffurfiol gan y Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Cyllid ym Mehefin 2000 ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor ar y Cylch Gwaith. Er mwyn peidio ag achosi cyfnod rhy hir o ansicrwydd i'r Awdurdod roedd pawb am fwrw ymlaen â'r Adolygiad mor gyflym ac mor drylwyr â phosibl.

4. Jonathan Price o Is-adran Cyngor Economaidd y Cynulliad aeth i'r afael â cham cyntaf yr Adolygiad, a chyflwynwyd yr Adroddiad Interim (gweler Atodiad 1 o'r Adroddiad Terfynol) i'r Pwyllgor ym mis Medi. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhellion craidd (a. i d.) sef bod galw parhaus ar i'r Awdurdod weithredu, ar y cyfan, yn ei ffurf bresennol. Cytunodd y Prif Ysgrifennydd â'r argymhellion hynny a symudodd yr adolygiad ymlaen at y cam nesaf, gan fynd i'r afael ag effeithiolrwydd strategol a llywodraethu corfforaethol. Cododd aelodau'r Pwyllgor nifer o faterion yr oeddynt yn gobeithio y gellid mynd i'r afael â hwy yn ystod y cyfnod hwn ac ymgorfforwyd y rhain mewn i cylch gwaith diwygiedig.

5. Aed i'r afael ag ail gam yr Adolygiad gan KPMG. Ers comisiynu'r Adolygiad yn y lle cyntaf, mae'r Pwyllgor wedi comisiynu ei astudiaeth ei hun ar gymorth busnes a chadwodd KPMG mewn cysylltiad â Jim Driscoll fel eu bod yn gallu rhoi ystyriaeth i'r datblygiadau yn y ffordd o feddwl. Yr ail brif newid ers comisiynu'r Adolygiad yw fod Prif Weithredwr newydd wedi ei benodi i'r Awdurdod.

**Yr Adroddiad Terfynol**

6. Mae'r Adroddiad Terfynol Drafft yn Atodiad A. Mae'n gwneud 47 argymhelliad, sydd wedi eu rhestru yn adran 10 (tud. 54). Mae'n disgrifio casgliadau'r adolygydd yn dilyn ymgynghoriad eang ei gwmpas gyda budd-ddeiliaid, a phartneriaid yn ogystal ag o fewn yr Awdurdod. Mae'n ymdrin ag amryw o faterion sydd yn yr Adroddiad Interim. Yn gyffredinol, mae'n dod i'r casgliad bod yr Awdurdod yn gweithio'n effeithiol ac na fyddai economi Cymru, hebddo, mewn cystal sefyllfa i allu ymateb i'r prif sialensiau sy'n ei hwynebu.

7. Fel gyda phob sefydliad, gellid gwella rhai agweddau ar ei weithgaredd. Mae'r Adroddiad yn awgrymu sut y gellid gwneud rôl a swyddogaethau perthnasol yr Awdurdod a'r Cynulliad yn gliriach. Mae'n gwneud argymhellion ar faterion megis cynllunio strategol a chorfforaethol, strwythur, a chyfathrebu mewnol ac allanol. Mae'n mynd i'r afael ag amryw o faterion 'ffiniol' megis sgiliau a TGCh. O ran llywodraethu corfforaethol, mae'r adroddiad yn cyfeirio at wneud gwelliannau arwyddocaol o ran llywodraethu corfforaethol ac yn argymell y dylai'r Cynulliad adolygu faint o awdurdod a ddirprwyir i'r Awdurdod.

8. Mae rhai o'r argymhellion (er enghraifft 3-6, tud. 56 a 19-23, tudalennau 60-61) yn ymwneud â'r cynigion sy'n dod i'r amlwg yn adolygiad cymorth busnes y Pwyllgor Datblygu Economaidd ac efallai y bydd angen eu nodi nes i'r adolygiad hwnnw gael ei gwblhau. Mae'n bosibl y gellid gweithredu rhai o'r argymhellion eraill o flaen llaw, yn enwedig rhai sy'n ymwneud ag agweddau gweithredu mewnol yr Awdurdod. Yn wir, mae'r rheolwyr yn mynd i'r afael â nifer o'r materion yn barod.

**Cydymffurfio**

9. Gwnaed yr adolygiad yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar yr Adolygiad Pob Pum Mlynedd. Ar wahân i gymryd rhan yn yr Adolygiad, ymgynghorwyd ag Awdurdod Datblygu Cymru ar bob mater o ffaith.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

10. Gofynnir i'r Pwyllgor roi sylwadau ar yr Adroddiad Terfynol drafft cyn ei gyflwyno i aelodau.

**Pwynt cyswllt**

Yr Is-adran Cynllunio Ariannol.

**Atodiad A**